

# Ein strategaeth grantiau yn ystod y cyfnod Coronafeirws a thu hwnt



## Egwyddorion gweithredu

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru'n cefnogi sefydliadau elusennol, rydyn ni'n canfod ac yn ariannu prosiectau lleol sy'n helpu i gryfhau cymunedau yng Nghymru. Rydyn ni'n ariannwr lleol sy'n deall ac yn malio llawer iawn am bobl a lleoedd yng Nghymru, mae'r sector yn cael ei chefnogi gan waith mwy na 30,000 o sefydliadau elusennol sy'n darparu gwasanaethau allweddol i gefnogi cymunedau lleol. Rydyn ni'n ymdrechu i gysylltu'n bersonol gyda'r rhai sy'n derbyn ein grantiau a'u partneriaid, yn gwrandao ar eu hanghenion ac yn ymateb i gyfleoedd o weithio gyda'n gilydd. Gan gofio hynny, a defnyddio'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu o'n harolwg Effeithiau Coronafeirws, bydd yr egwyddorion canlynol yn ein harwain trwy'r argyfwng Coronafeirws hwn.

**Byddwn yn canolbwyntio ar anghenion grwpiau llawr gwlad** - y sefydliadau elusennol bychan, lleol, yw anadl einioes cymunedau ac maen nhw'n gallu helpu i ffurfio'r syniad o berthyn i sir, tref neu bentref. Yn gweithio'n lleol, maen nhw yn y lle gorau i adweithio ac i addasu i ofynion cyfnewidiol y rhai y maen nhw'n eu gweld bob dydd. Bydd y grwpiau hyn, sydd, yn aml yn cael y lleiaf o arian gan roddwyr mawr neu ddigwyddiadau codi arian mawr, yn dal yn flaenoriaeth i ni.

**Byddwn yn ei gwneud mor hawdd â phosibl ymgeisio am grant** – rydyn ni wedi addasu ein prosesau i wneud hyn hyd yn oed yn haws i grwpiau, cyffyrddiad ysgafn ond trefniadau asesu ac adrodd cadarn. Byddwn yn cadw at ein prawf diwydrwydd dyladwy i hidlo twyll wrth asesu ceisiadau. Rydyn ni'n talu'n amlach er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael yr arian i ble mae ei angen mor fuan â phosibl. Mae ein rhoddwyr a deiliad cyfrifon yn ymddiried ynom ni i ddefnyddio eu harian fel rydyn ni'n gweld yn dda, rydyn ninnau hefyd yn ymddiried yn y bobl sy'n gweithio yn eu cymunedau i symud ymlaen i wneud yr hyn sydd ei angen, pan a ble y mae ei angen.

**Byddwn yn cefnogi grwpiau yn y tymor hir** – yr anghenion y byddwn yn eu blaenoriaethu i ddechrau yw'r rhai brys, grwpiau'n ymateb ac yn addasu eu gwasanaeth i gefnogi'r rhai sydd fwyaf bregus yn argyfwng y pandemig. Ond, hefyd, rydyn ni eisiau cefnogi grwpiau a chymunedau i fod yn hyfyw yn y dyfodol ar ôl y pandemig, pryd bynnag y bydd hynny. Pan fyddwn yn derbyn ceisiadau oddi wrth grwpiau elusennol sydd wedi colli, ac yn dal i gollu, incwm / codi arian / masnachu sylweddol oherwydd eu bod wedi gorfod cau eu drysau dros gyfnod y pandemig, byddwn yn gohirio ystyried y ceisiadau hynny nes y byddwn wedi cael darlun cliriach o beth sydd o'n blaenau yn y dyfodol. Yr adeg hynny, byddwn yn adolygu'r ceisiadau hyn fesul un i wneud yn siŵr bod y penderfyniadau'n deg yn ôl daearyddiaeth, yn ôl y broblem ac yn ôl yr angen gan ddefnyddio unrhyw wybodaeth a dealltwriaeth newydd o angen rydyn ni wedi'i gael yn ystod yr argyfwng.

**Byddwn yn adolygu ac yn dadansoddi ein data cyflwyno grantiau'n rheolaidd** – gan ddefnyddio'r data o'n Harolwg Coronafeirws parhaus ac o'n gwaith wrth gyflwyno grantiau, byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn ateb anghenion pawb sy'n wynebu caledi ledled Cymru. Byddwn yn targedu manau lle byddwn yn gweld llai o geisiadau. Pan fyddwn yn gweld bylchau yn ein cefnogaeth i grwpiau sy'n gweithio gyda phobl mewn argyfwng,

byddwn yn treulio amser i dargedu'r grwpiau hynny, i siarad gyda nhw a gwrando a i ddod i ddeall yn well y ffordd orau y gallwn ni eu cefnogi i ychwanegu gwerth at eu gwaith a gwneud yn siŵr y gall gwasanaethau i'r mannau a'r bobl fwyaf bregus yng Nghymru barhau. Byddwn yn dryloyw, yn onest ac yn eglur ynghylch pwy ydyn ni'n eu hariannu ac yn gwneud yn siŵr fod ein data ar gael i'r cyhoedd er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon cadarn i gael ei ddadansoddi gan bobl eraill.

**Rydyn ni'n credu fod iechyd a bywiogrwydd y sector yn dibynnu ar nerth a bywiogrwydd ei bobl** – gydol y cyfnod hwn byddwn yn anelu at gefnogi pobl sydd eisiau hyrwyddo ac arwain newid cymdeithasol yn y tymor hir, ac nid yn unig gynnal sefydliadau.

**Bydd yna rai dewisiadau caled** - rydyn ni'n disgwyl y bydd y gofyn yn fwy na faint o arian fydd gennym ni i'w rannu ac na fyddwn ni'n gallu diwallu pob cais. Ond, fe fyddwn ni'n gwneud popeth o fewn ein cyrraedd i wneud yn siŵr ein bod yn cadw at yr egwyddorion hyn pan fydd yn rhaid cymryd y penderfyniadau caled hynny.

**Ac fe wyddom ni na allwn ni ariannu popeth** – allwn ni ddim talu costau diswyddo staff nag ar gyfer eu cadw wrth gefn, bydd yn rhaid i bob elusen edrych ar eu hasedau a'u cronfeydd eu hunain ac ystyried cymorth y llywodraeth i gadw staff, os bydd ar gael, i helpu i gadw'n hyfyw.

**Yn olaf, rydyn ni'n credu mewn Arweinyddiaeth Hael** - nid dyma'r adeg i golli golwg ar amcanion craidd ein helusen, i chwilio am arian na thanseilio sefydliad arall pam mae'n wan. Rydyn ni'n wirioneddol gredu mewn arweinyddiaeth hael ac yn ystyried y bydd y gwerthoedd a'r ymddygiad rydyn ni'n ei ddangos ar hyn o bryd yn penderfynu ar y math o gymuned a chymdeithas y byddwn ni'n eu creu ar ôl y pandemig. Mae partneriaethau'n bwysig i ni, byddwn yn gweithio'n bositif gyda phartneriaid i wneud yn siŵr y bydd ariannu yng Nghymru'n cael ei ddefnyddio'n fwyaf effeithiol. Rydyn ni'n credu, drwy weithio gyda'n gilydd, y byddwn yn adfer yn gryfach.

## Fframwaith Cyflwyno Grantiau

**Mawrth 2020** – Cynnal arolwg i gydlynu Effaith y Pandemig ar y Trydydd Sector yng Nghymru  
Yr arolwg i aros ar agor drwy'r argyfwng ac i gael ei adolygu'n rheolaidd i ffurfio'r rhaglen ariannu.



**Mawrth 20** - agor rhaglen Open Grantmaking i ymateb i anghenion grwpiau cymunedol lleol, ar lawr gwlad, cyflwyno grantiau yn unol â chyfarwyddid yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol i'r rhai mewn mwyaf risg o Coronafeirws a defnyddio arian Sefydliad Cymunedol Cymru pan fod yna dystiolaeth dda o angen ond nad yw'r buddiolwyr yn ateb meini prawf yr Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol.



**Mai 2020** – Cadarnhau canfyddiadau'r arolwg, dadansoddi'r grantiau a nodi bylchau a gwneud yn siŵr ein bod yn cyfarfod ag anghenion y sector Bydd y canfyddiadau'n ein helpu i newid y meini prawf os bydd angen ac yn ein galluogi i dargedu ardaloedd / grwpiau y mae'n wybyddus eu bod yn 'smotiau oer' ac i roi unrhyw grantiau strategol rydyn ni o'r farn y maen nhw eu hangen.



**Mehafin 2020** – Ystyried symud i'r cam nesaf. Ystyried ceisiadau sydd wedi'u gohirio, nodi pa rai sy'n hanfodol i ddod â chymunedau'n ôl at ei gilydd. Ystyried pa bryd a sut y gall ein rhaglenni ariannu eraill ychwanegu gwerth at arian Cadernid Coronafeirws i gefnogi costau hanfodol grwpiau allweddol a fydd hefyd yn dal i ymateb i anghenion eu cymunedau. Cadarnhau unwaith eto ganlyniadau'r arolwg i helpu i ffurfio hyn.



**Awst / Medi 20** – Lansio rhaglen newydd o grantiau yn anelu at adeiladu cadernid yn y sector, cydnabod arweinyddiaeth ac arloesedd ysbrydoledig, adeiladu partneriaethau newydd a chefnogi grwpiau i arallgyfeirio ffrydiau arian i gryfhau cynaliadwyedd. Defnyddio monitro a gwerthuso i ganfod beth mae grwpiau wedi'i ddysgu yn ystod y cyfnod clo - beth sydd wedi gweithio'n dda, beth fydden nhw'n ei newid o ganlyniad a sut y bydd yr hyn a ddysgwyd yn gwella eu gwaith yn y dyfodol. Defnyddio'r wybodaeth yn ein proses o benderfynu.

## Cefnogi'r Trydydd Sector yng Nghymru i adfer yn gryfach

Mae'r Pandemig Coronafeirws yn effeithio ar bob agwedd o fywydau pobl: arian, addysg, iechyd a llesiant. Daw'r Pandemig yn fuan ar ôl llifogydd wnaeth ddifrod helaeth mewn sawl ardal yng Nghymru, gan effeithio fwy fyth ar bobl a oedd ond yn dechrau dygymod â cholli eu cartrefi a'u busnesau. Dangosodd adborth o arolwg ar lein Sefydliad Cymunedol Cymru ac adborth oddi wrth grwpiau sy'n cael eu cefnogi gan y Sefydliad cymaint y mae'r grwpiau hyn wedi'u heffeithio gan y pandemig wrth iddyn nhw ymdrechu i gefnogi'r ymateb i'r Coronafeirws, darparu gwasanaethau ac addasu i ffyrdd newydd o weithio tra, yr un pryd, gynhyrchu incwm / godi arian sy'n hollol hanfodol i oroesi.

Mae pawb yn wynebu pwysau ansicrwydd. Rydyn ni eisoes yn gwybod fod sawl sefydliad yng Nghymru, yn enwedig y sefydliadau lleol. I lai, angen cefnogaeth yn y tymor byr i'w helpu i reoli llif arian; addasu modelau darparu ac arallgyfeirio ffrydiau incwm i adeiladu cadernid. O ganlyniad i'r Pandemig Coronafeirws, bydd yn rhaid iddyn nhw yn awr ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a datblygu gwasanaethau newydd i gyfarfod â'r anghenion sy'n ymddangos yn ogystal â thalu sylw i broblemau cynaliadwyedd.

Mae hyn yn gyfle gwych i grwpiau yng Nghymru i ddatblygu a newid. Erbyn heddiw, mae angen mwy o arian nag erioed, i gefnogi sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ledled Cymru a'u helpu i gynnal eu gwasanaethau yn y tymor byr i ganolig. Dylem ystyried adeiladu ar ein perthynas gydag arianwyr eraill a chyda partneriaid seilwaith i wneud yn siŵr fod cefnogaeth i grwpiau'n cynnwys:

- Hyfforddiant, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys rhagweld llif arian, mentora ariannol a busnes
- Rhwydweithiau cymheiriaid
- Ariannu grantiau perthnasol

Her allweddol i'r cyfan o'r Trydydd Sector yng Nghymru yw sut y gallwn ni, ar y cyd, yn y tymor canolig i hir, ddal ati gyda'r gwaith partneriaeth a'r cydweithrediad agos gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Fforwm Arianwyr Cymru ayb sydd wedi codi o ganlyniad i ymateb Cymru i'r pandemig, gan gadw'r hyn sydd wedi'i ddysgu ac adeiladu dyfodol cadarnach a gwytnach ar gyfer ein cymunedau.

Bydd anghenion pobl Cymru, o ganlyniad i'r Pandemig Coronafeirws, yn wahanol, a'r pwysau ar gymunedau'n drymach. Drwy weithio wrth galon ein cymunedau, a chydag amrywiaeth o bartneriaid traws sector, bydd Cymru'n gallu adnewyddu a chryfhau yn y tymor hir.

Mae angen rhagor o arian i wneud yn siŵr fod gan sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n talu sylw i flaenoriaethau allweddol yn ein cymunedau ddigon o adnoddau a'u bod yn gallu dal ati i wneud gwahaniaeth positif i fywydau'r rhai mwyaf difreintiedig. Drwy weithio mewn partneriaeth, dylai'r gefnogaeth yn y tymor hir gynnwys:

- Gwaith datblygu cymunedol
- Arian had ar gyfer treialu ffyrdd newydd, wedi'u dylunio ar y cyd, arloesol o weithio (efallai sydd wedi codi drwy addasu gwasanaethau)
- Rhaglen partneriaethau
- Hyfforddiant, cyngor ac arweiniad i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol
- Ariannu grantiau perthnasol

## Anghenion Cymunedol

Y sefyllfa cyn Mawrth 2020 h.y. cyn y Pandemig Coronafeirws:

- **Pobl hŷn a bregus:** poblogaeth yn heneiddio, arwahanrwydd ac unigrwydd cymdeithasol, iechyd meddwl, unigrwydd cefn gwlad,
- **Tlodi ac amddifadedd:** Un o bob tri o deuluoedd yn byw mewn tlodi, amddifadedd cefn gwlad, diffyg gwasanaethau, cysylltiadau cludiant cyhoeddus gwael
- **Tai a digartrefedd:** stoc tai gwael, llawer o ddigartrefedd mewn rhai ardaloedd.
- **Iechyd a llesiant** gordewdra, ffordd o fyw afiach, iselder, pryder, hunan niweidio a hunanladdiad, prinder gwasanaeth meddygon teulu yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- **Sgiliau, addysg a chyflogadwyedd:** cyrhaeddiad addysgol isel, diweithdra a bylchau mewn addysg a sgiliau ieuencid, diweithdra tymor hir, prinder cyfleoedd gwaith sgilgar, diweithdra tymhorol, pobl ifanc sgilgar a thalentog yn symud i ffwrdd i ganfod gwaith.
- **Trosedd:** Cynnydd o bron i 18% mewn troseddau treisgar rhwng Medi 2018 a Medi 2019. Mwy o adroddiadau am ymddygiad gwrth-gymdeithasol hefyd ac o achosion o dwyll a throedd seibr.
- **Y Trydydd Sector** ariannu costau craidd, hirhoedledd ariannu, codi arian, cynaliadwyedd, llywodraethiant cadarn

Anghenion presennol h.y. yn ystod y Pandemig Coronafeirws: Fel y nodwyd ac yr ariannwyd -

- **Pobl hŷn a bregus - ariannwyd:**
  - Hunan ynysu - y rhai heb gefnogaeth teulu / ffrindiau ac sydd angen cefnogaeth ymarferol i ddanfôn bwyd ac eitemau hanfodol
  - Unigrwydd – cefnogaeth cyfeillgarwch ar y ffôn
  - Arian a phryderon eraill – cyngor ac arweiniad dros y ffôn
  - Llesiant emosiynol (poeni am eu sefyllfa, ffrindiau, teulu a newyddion Coronafeirws)
  - Cefnogaeth feddygol (pryderon ynghylch eu cyflyrau ac adfer ar ôl Coronafeirws) - y rhai heb gefnogaeth teulu / ffrindiau ac angen cefnogaeth ymarferol o ddanfôn meddyginiaethau, cadw apwyntiadau meddygol ac ar ôl dod adref o'r ysbyty (fferyllfeydd lleol, canolfannau cadernid cymunedol, cydlynw grwpiau o wirfoddolwyr).
  - Cefnogaeth ychwanegol i Ofalwyr – cefnogaeth dros y ffôn / ysbeidiau argyfwng / cefnogaeth therapiwtig ar lein
  - Pobl ifanc (ysgolion wedi cau a grwpiau ieuencid wedi cau): cefnogaeth dros y ffôn / ar lein
  - Cefnogi anghenion y rhai sy'n hunan ynysu: danfon bwyd a chyflenwadau hanfodol
- **Tlodi ac amddifadedd – ariannwyd:**
  - Pobl yn colli eu gwaith a'u hincwm, wynebu caledi ariannol newydd - danfon bwyd a chyflenwadau hanfodol
  - Pryderon ariannol a phryderon eraill - cyngor ac arweiniad ynghylch dyled a budd-daliadau / llesiant dros y ffôn ac ar lein

- Teuluoedd gyda diffyg adnoddau – cefnogaeth ar gyfer addysg, chwarae ac adnoddau eraill
- Unigedd gwledig – danfon bwyd a chyflenwadau hanfodol ac ymateb i anghenion y rhai heb gludiant, unigrwydd
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddim yn cael arian cyhoeddus – bwyd a chyflenwadau hanfodol, cyngor a chefnogaeth

- **Tai a digartrefedd – ariannwyd:**

- Arian a phryderon eraill – cyngor ac arweiniad dros y ffôn / ar lein
- Trais yn y cartref - cyngor ac arweiniad dros y ffôn / ar lein / darparu llochesi
- Straen perthnasau teuluol - mentora a hyfforddi, llety mewn argyfwng
- Caethiwed – Cefnogaeth ar y stryd, llety dros dro, bwyd a chyflenwadau hanfodol

- **Iechyd a llesiant – ariannwyd:**

- Llesiant emosiynol (pryder ynghylch eu sefyllfa, ffrindiau, teuluoedd a newyddion am Coronafeirws)
- Anghenion iechyd meddwl – methu mynd allan oherwydd y cyfnod clo / gwarchod / hunan ynysu. Methu ag ymweld ag anwyliaid mewn cartref gofal neu ysbyty
- Profedigaeth – oherwydd Coronafeirws neu am resymau eraill, sefyllfa'n waeth oherwydd cyfyngiadau ar faint o bobl gaiff fod mewn angladd
- Straen / pryder o weithio o gartref, tor perthynas, anwyliaid yn gweithio fel gweithwyr rheng flaen / allweddol
- Cefnogaeth i gaethiwed - cyngor ac arweiniad dros y ffôn / ar lein
- Rhwystro hunanladdiad - - cyngor ac arweiniad dros y ffôn / ar lein, timau ymateb brys
- Pobl ifanc - cyngor a gweithgareddau ar lein
- Yr her o fwyta'n iach ac ymarfer corff wrth ynysu, yn enwedig i rai ar incwm isel.

- **Sgiliau, addysg a chyflogadwyedd:**

- Colli gwaith
- Addysgu gartref
- Diffyg momentwm yn achosi diffyg cymhelliad.

- **Trosedd:**

- Twyll
- Cynnydd mewn cam-drin

- **Y Trydydd Sector:**

- Cynnydd yn y galw am wasanaethau
- Addasu gwasanaeth i gyfarfod ag anghenion
- Methu masnachu / codi arian
- Prosiect Cadernid
- Cynaliadwyedd
- Diffyg sgiliau

## Y dyfodol

- **Cyflwyno Grantiau:**

- Parhau i godi ymwybyddiaeth am ein grantiau a chefnogi grwpiau i ymgeisio.
- Dal i sicrhau bod ein grantiau'n dal i ganolbwyntio ar yr anghenion sydd â blaenoriaeth mewn cymunedau
- Grwpiau cefnogi, sy'n derbyn grantiau newydd a phresennol y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, er mwyn gweithio'n hyblyg, datblygu eu gwasanaethau a'r ffyrdd gorau o weithio i gefnogi buddiolwyr sydd fwyaf mewn angen
- Sicrhau fod ein grantiau arferol yn cyd-fynd ag arian ymateb i Coronafeirws i ychwanegu gwerth, yn cyd-fynd ac yn datblygu'r hyn a ddysgwyd o'r sgysiau rydyn ni wedi'u cynnal gyda'r sector ynghylch heriau a chyfleoedd.
- Os yn bosibl, cadw ein harian presennol nes bod yr arian sydd ar gael mewn ymateb i'r pandemig yn dechrau prinhaus.
- Agor ein harian arferol i roi grantiau i dalu sylw i'r bylchau na all yr arian i ymateb i Coronafeirws eu llenwi e.e. Grantiau i unigolion ar gyfer cefnogaeth addysgol, costau adnewyddu / cyfalaf.
- Dangos esiampl gref o weithio mewn partneriaeth ac annog y rhai rydyn ni'n eu hariannu i wneud yr un fath.
- Dal i gyhoeddi ein data ynghylch grantiau.

- **Gwaith Datblygu ac Ariannu:**

- Cydweddu ein gwaith gyda'r anghenion cymunedol a nodwyd o'r blaen, i wella a chryfhau'r trydydd sector yng Nghymru
- Dal i weithio gyda phartneriaid lleol newydd a phresennol ac â rhanddeiliaid allweddol i ganfod rhagor o gefnogaeth i dalu sylw i anghenion cymunedol penodol drwy weithio'n gyson a heb ddyblygu e.e. Busnes yn y Gymuned, Sefydliad Codi Arian, Cranfield Trust, Cymdeithas Gwirfoddoli Cymdeithasol Cymru a rhwydwaith gefnogi'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol.
- Gweithio gyda rhoddwyr newydd a phresennol i gael rhagor o roddion i gefnogi cadernid yn y dyfodol.
- Dal i adeiladu perthynasau gwaith cryf gyda'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol a Chronfa Gymunedol y DU i gael arian i gefnogi grwpiau er mwyn gallu ymateb i'r argyfwng presennol ac i adfer a chryfhau yn y dyfodol
- Dal i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Argyfyngau Cenedlaethol, Cronfa Gymunedol y DU a phartneriaid eraill i wireddu cyfleodd ariannu Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru
- Cofnodi'r hyn a ddysgwyd oddi wrth arolygon ar lein, monitro a sgwrsio i ddatblygu a chreu adnoddau newydd i wella ein cefnogaeth i'r rhai sydd ac a fydd yn derbyn ein grantiau yn y dyfodol.

Dylid defnyddio'r ddogfen strategaeth hon i'n cadw ar y llwybr wrth i ni symud ymlaen o ymateb argyfwng i'r Pandemig Coronafeirws. Dylai fod yn atgoffa y dylid ystyried bywyd cyn y pandemig, peidio â cholli golwg ar yr heriau a'r cyfleoedd sydd wedi'u nodi. Mae'r pandemig wedi codi ymwybyddiaeth y sector o'r angen am gynllunio ariannol cryf a pha mor fregus yw dibynnu gormod ar un ffurf o incwm.

Dylid ei ddefnyddio i sicrhau grwpiau'r trydydd sector ein bod yn ystyried 'busnes fel arfer' ar ôl y pandemig a'n bod n gweithio i sicrhau y bydd yr arian sydd ar gael yn llifo'n esmwyth wrth i ni symud o'r Pandemig Coronafeirws ac i'r 'normal newydd'.